
Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

UNDEB MYFYRWYR
Y DRINDOD DEWI SANT
TRINITY SAINT DAVID
STUDENTS' UNION



# Polisi Masnach Deg

**Fersiwn 2.0**

## Cynnwys

1.0 Cyflwyniad .......... 2
2.0 Pwrpas .......... 2
3.0 Cwmpas .......... 2
4.0 Polisi .......... 2
5.0 Monitro ac adolygu .......... 5
6.0 Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill .......... 4
7.0 Goblygiadau o ran Adnoddau .......... 4
8.0 Asesiad Effaith .......... 6
9.0 Rheoli fersiynau dogfennau .......... 7

## 1.0 Cyflwyniad

Mae Masnach Deg yn ymwneud â phrisiau gwell a theg, amodau byw a gweithio boddhaol, cynaliadwyedd lleol a thelerau masnachu teg i ffermwyr a gweithwyr yn y byd datblygol. Mae'r Sefydliad Masnach Deg, gyda'i bartneriaid, yn cadw'r egwyddorion hyn trwy archwilio ei gyflenwyr yn rheolaidd ynghyd â'i gysylltiadau a nwyddau masnachu.

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a'r Undeb Myfyrwyr cysylltiedig (UMYDDS) yn deall gwerth masnach deg ac yn ymrwymo i gefnogi'r rhai hynny mewn cymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol trwy ddefnyddio cynnyrch a fasnachwyd yn deg lle bynnag y bo modd a chodi ymwybyddiaeth o fewn cymuned y Brifysgol o faterion cyfiawnder masnachol.

## 2.0 Pwrpas

Mae'r polisi hwn yn amlinellu ymrwymiad Y Drindod Dewi Sant ac UMYDDS i Fasnach Deg ac mae'n amlygu'r 5 nod allweddol a amlinellwyd gan y Sefydliad Masnach Deg. Nid yw'n ddyletswydd statudol nac yn mynd i'r afael â dyletswydd gyfreithiol. Ei ddiben yw darparu arweiniad i staff a myfyrwyr o ran gweithredu egwyddorion Masnach Deg.

## 3.0 Cwmpas

Cwmpas y polisi yw sicrhau bod Masnach Deg yn cael ei gefnogi o fewn y Brifysgol a helpu mynd i'r afael â'r meysydd canlynol:

- Annog staff a myfyrwyr i brynu cynnyrch Masnach Deg lle bo modd.
- Cymryd rhan yn flynyddol ym Mhythefnos Masnach Deg
- Cefnogi mentrau Masnach Deg lleol a rhanbarthol
- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o nod ardystio Masnach Deg a Chydnabyddiaeth Prifysgol Fasnach Deg.
- Arddangos gwybodaeth ac adnoddau yn ymwneud â Masnach Deg mewn mannau lle mae'r cynnyrch yn cael eu gwerthu ac ar y gwefannau sefydliadol priodol. Cyhoeddi erthyglau a gwybodaeth bellach am Fasnach Deg mewn cyhoeddiadau perthnasol gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, megis newyddlenni.
- Gweithio gyda staff academaidd i gynnwys damcaniaethau cysylltiedig ac astudiaethau achos Masnach Deg o fewn yr addysgu, lle bo'n briodol.
- Annog holl aelodau'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn frwd i gefnogi polisi Masnach Deg.

## 4.0 Polisi

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod cynnyrch Masnach Deg ar gael ym mhob safle gwerthu bwyd ac arlwyo ar gampysau'r Brifysgol, yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr. Os nad yw hyn yn bosibl ar unwaith (oherwydd y pris, argaeledd y cynnyrch neu ymrwymiadau cytundebol), ceir ymrwymiad i gyflwyno neu newid y stoc cyn gynted ag y bo modd. Bydd Undeb y Myfyrwyr hefyd yn sicrhau (lle bo modd) bod gwisgoedd yr holl staff, gwirfoddolwyr a swyddogion wedi'u gwneud o gotwm Masnach Deg.

Bydd y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr cysylltiedig yn sicrhau bod cynnyrch Masnach Deg yn cael eu darparu ym mhob cyfarfod a digwyddiad lletygarwch yn ogystal â

chyfarfodydd. Os bydd staff yn darparu ar eu cyfer eu hunain (e.e. mewn swyddfeydd) fe'u hanogir, trwy ymgyrchu, i brynu cynnyrch Masnach Deg.

**4.1 Gwerthu Cynnyrch Masnach Deg a Sefydliad Masnach Deg y Byd**
Bydd cynnyrch Masnach Deg ar gael ym mhob safle gwerthu bwyd ac arlwyo ar gampysau'r Brifysgol, yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr. Os nad yw hyn yn bosibl ar unwaith (oherwydd y pris, argaeledd y cynnyrch neu ymrwymiadau cytundebol), ceir ymrwymiad i gyflwyno neu newid y stoc cyn gynted ag y bo modd.

Bydd Undeb y Myfyrwyr hefyd yn sicrhau (lle bo modd) bod gwisgoedd yr holl staff, gwirfoddolwyr a swyddogion wedi'u gwneud o gotwm Masnach Deg.

**4.2 Lletygarwch**
Bydd y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr cysylltiedig yn sicrhau bod cynnyrch Masnach Deg yn cael eu darparu ym mhob cyfarfod a digwyddiad lletygarwch yn ogystal â chyfarfodydd. Os bydd staff yn darparu ar eu cyfer eu hunain (e.e. mewn swyddfeydd) fe'u hanogir, trwy ymgyrchu, i brynu cynnyrch Masnach Deg.

**4.3 Hyrwyddo**
Bydd y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddyfnhau dealltwriaeth a chynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o gynnyrch Masnach Deg ar draws y sefydliad. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:

- Annog staff a myfyrwyr i brynu cynnyrch Masnach Deg lle bo modd.
- Cymryd rhan yn flynyddol ym Mhythefnos Masnach Deg.
- Cefnogi mentrau Masnach Deg lleol a rhanbarthol.
- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o nod ardystio Masnach Deg a Masnach Deg.
- Arddangos gwybodaeth ac adnoddau yn ymwneud â Masnach Deg mewn mannau lle mae'r cynnyrch yn cael eu gwerthu, ar wefannau sefydliadol priodol ac ar hysbysfyrddau o amgylch campysau'r Brifysgol.
- Gweithio gyda staff academaidd i gynnwys damcaniaethau cysylltiedig ac astudiaethau achos Masnach Deg o fewn yr addysgu, lle bo'n briodol.
- Annog holl aelodau'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn frwd i gefnogi'r polisi Masnach Deg.

**5.0 Monitro ac adolygu**
Bydd Grŵp Llywio Masnach Deg y Brifysgol yn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu. Bydd yr aelodaeth a'r cylch gorchwyl yn agored i'w newid, ond bydd bob amser yn cynnwys o leiaf ddau aelod o gorff y myfyrwyr, aelod cynrychiadol o Undeb y Myfyrwyr ac o leiaf dri aelod o staff y Brifysgol (a rhaid i o leiaf un ohonynt gynrychioli Gweithrediadau a/neu Arlwyo). Bydd y Grŵp Llywio yn cwrdd o leiaf unwaith y tymor i weithredu'r polisi'r hwn, a gaiff ei adolygu a'i ddiweddaru (lle bo'n briodol) yn flynyddol.

## 6.0 Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

- Polisi Amgylcheddol
- Strategaeth Cynaliadwyedd
- Polisi Caffael Cynaliadwy
- Polisi Bwyd Cynaliadwy

Mae'r polisïau hyn ar gael ar wefan Y Drindod Dewi Sant.

## 7.0 Goblygiadau o ran Adnoddau

| Goblygiad | Manylion |
|---|---|
| Cyllid | Cynnydd yn y gost o brynu cynnyrch. |
| Staff | Dim wedi'i nodi. |
| Asedau | Dim wedi'i nodi. |
| Partneriaid | Dim wedi'i nodi. |
| Graddfeydd Amser | Adolygir y Polisi hwn yn flynyddol a chynhelir yr adolygiad nesaf rhwng Mai – Hydref 2016 |
| Arweinyddiaeth | Pennaeth Gweithredol Gwasanaethau Busnes a Phrif swyddog gweithredu UMYDDS sy'n gyfrifol am arwain y polisi hwn. |

## 8.0 Asesiad Effaith

| Goblygiad | A ystyriwyd effaith (Do/Naddo) | Effaith a Ddynodwyd |
|---|---|---|
| Cyfreithiol | D | Dim wedi'i nodi. |
| Cyfraniad at y Cynllun Strategol | D | Mae hyn yn cefnogi'r Brifysgol gyda'i chynnydd o ran ymgorffori cynaliadwyedd o fewn bywyd y Brifysgol i staff a myfyrwyr. |
| Dadansoddiad Risg | D | Gallai'r polisi arwain at gynnydd yn yr oblygiadau o ran adnoddau ariannol yn sgil y cynnydd yn y pris o brynu cynnyrch masnach deg. |
| Cydraddoldeb | D | Mae'r polisi ar gael mewn fformatau gwahanol i ganiatáu ar gyfer anawsterau gweld neu lefelau deall iaith. |
| Y Gymraeg | D | Bydd y polisi ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. |
| Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | D | Bydd y polisi hwn yn ffurfio rhan o'r fframwaith cynaliadwyedd a ddilynir gan y Brifysgol. |
| Cyfathrebu/ y Cyfryngau/ Marchnata | D | Rhoddir y polisi hwn ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd wedi iddo gael ei adolygu. Yn ogystal cylchredir dolenni'r safleoedd hyn i Weinyddwyr yr amrywiol Gyfadrannau er mwyn eu dosbarthu. |

**Awdur(on) y polisi:**

- Jane Davidson - Pro Is-Ganghellor (Ymgysylltu a Chynaliadwyedd)
- Vandana Sahai - Pennaeth Gweithredol Gwasanaethau Busnes
- Rhys Dart – Prif Swyddog Gweithredu UMYDDS

## 9.0 Rheoli fersiynau dogfennau

| Fersiwn Rhif: | Rheswm am newid: | Awdur: | Dyddiad newid: |
|---|---|---|---|
| 1 | Cymeradwywyd gan yr IG. | JD/VS | Gorffennaf 2014 |
| 2 | Dileu cymal o adran 2: Lletygarwch:-<br><br>'bydd hyn yn cynnwys nwyddau darfodus a ddarperir mewn ystafelloedd a rentir' | JD/VS | 30.06.15 |
| 2 | Ystyriwyd gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd 30.06.15 – nid oedd angen unrhyw newid pellach. | 2 | Ystyriwyd gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd 30.06.15 – nid oedd angen newid. |
| 2 | Ystyriwyd gan yr UDRh 10.09.15 – nid oedd angen unrhyw newid pellach. | 2 | Ystyriwyd gan yr UDRh 10.09.15 – nid oedd angen newid. |
| | Ystyriwyd yn y Pwyllgor Adnoddau | | |
| | Ystyriwyd yn y Cyngor | | |
| 3 | Diwygiadau i'r rôl a theitlau sefydliadol | VS / RD | 26.10.16 |

**Statws presennol y Polisi:** Cymeradwywyd

**Mae'r Polisi'n berthnasol i:** AU

**Dyddiad cadarnhau:** 18 Tachwedd 2016

**Dyddiad yn effeithiol o:** 18 Tachwedd 2016

**Dyddiad adolygu'r polisi:** Hydref 2017

**I'w gyhoeddi:** ar wefan Y Drindod Dewi Sant.